Lefel 5

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

GORFFENNAF 2018

Cynnwys

	Rhif y dudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Deilliannau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	5
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	7

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://qualificationswales.org/publications/standard-conditions-of-recognition-march-2017/?lang=cy

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer y rheini sy'n gweithio mewn rôl rheoli o fewn lleoliad gofal plant.

Dylai'r cymhwyster hwn gael ei gynllunio i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, gan gynnwys ym meysydd dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach, ar gyfer dysgwyr 18 oed a throsodd.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Gorffennaf 2018 a chânt eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg Drwy Gynllunio*[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnig ardystiad o gymhwyster gyda Chyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) o 900 o oriau (90 o gredydau) a bydd angen ei diffinio o ran Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).

2. Mae gan ycymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Dysgu, Datblygiad a Chwarae Plant: Ymarfer gynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B) (gweler Atodiad A).

3. Rhaid i'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

   Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

4. Rhaid i gynllun Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer sicrhau'r canlynol:

   4.1 y caiff y nodau ac amcanion pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau i alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;

   4.2 ei fod yn cefnogi dilyniant dysgwyr o gymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant.

[3] http://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf (Saesneg yn unig)

5. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer ddynodi unrhyw reolau cyfuno sy'n gymwys i'r cynnwys dewisol.

Nodau ac amcanion y pwnc:

6. Rhaid i Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer alluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiad, eu sgiliau a'u hymarfer o fewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn gwneud y canlynol:

    6.1 deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli a'u rhoi ar waith;

    6.2 myfyrio ar eu dulliau rheoli eu hunain ac eraill, a deall sut mae hyn yn effeithio ar y rheini maen nhw'n gweithio gyda nhw o fewn â thu hwnt i'w lleoliad;

    6.3 arwain a rheoli gwaith gwella perfformiad mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    6.4 arwain a rheoli dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn fel rhan o'u hymarfer;

    6.5 arwain a rheoli gwelliant gwasanaeth ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;

    6.6 gallu gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn hyddysg, sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;

    6.7 defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol i'w rôl.

Cynnwys y pwnc

7. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc:

8. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys:

- y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a nodwyd yn Atodiad A;
- y cynnwys dewisol (Grŵp B) a nodwyd yn Atodiad A.

Cynllun asesu

9. Caiff Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer ei asesu drwy asesiadau allanol yn unig. Bydd yr asesiad yn cynnwys:

9.1 portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys cofnodion arsylwi ar ymarfer;

9.2 prosiect busnes;

9.3 trafodaeth broffesiynol.

10. Rhaid i'r fanyleb ddisgrifio a meintioli'r dystiolaeth asesu y dylid ei chyflwyno.

11. Rhaid i'r cymhwyster fod yr un mor heriol i bob dysgwr, ni waeth pa asesiad a gwblhawyd.

12. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau'r canlynol:

12.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

12.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

13. Rhaid dangos tystiolaeth o bob deilliant dysgu ar gyfer y cynnwys gorfodol a'r cynnwys dewisol dan sylw fel rhan o'r asesiadau.

14. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar asesu yn gysylltiedig â'r deilliannau dysgu.

15. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

16. Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys manylion am gyfleoedd i ailgyflwyno.

Deilliannau

17. Caiff dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) dystysgrif. Caiff cyrhaeddiad dysgwyr ei raddio fel Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

18. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu'r canlynol:

    18.1 dogfen fanyleb;

    18.2 amrywiaeth gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol, sy'n dangos amrywiaeth o lwybrau cymaradwy;

    18.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u cydnawsedd â chanfyddiadau'r *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*[5].

Gofynion rhesymeg

19. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

20. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    20.1 strwythur y cymhwyster, gan egluro'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    20.2 sut y caiff asesiadau eu datblygu;

    20.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer yr asesiadau, y marciau sydd ar gael a hyd yr asesiadau;

    20.4 argaeledd cyfleoedd asesu a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

[5] http://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

20.5 dehongliad o'r deilliannau dysgu a sut maent yn gymwys i'r cydrannau asesu gwahanol;

20.6 cynllun deunyddiau a chanllawiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r amrywiaeth o dasgau asesu ym mhob rhan o'r cymhwyster a'u cydberthynas â'r deilliannau dysgu;

20.7 cynllun meini prawf marcio a sut y cânt eu defnyddio;

20.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

20.9 y broses ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol;

20.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau gradd arfaethedig ar lefel asesiadau a'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

21. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol.

22. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

22.1 cofrestriadau;

22.2 sicrhau ansawdd;

22.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
Ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A – Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Rhaid i fanyleb Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer gynnwys y cynnwys a'r deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn cynrychioli 100% o gyfanswm cynnwys a deilliannau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Meysydd Pwnc	Deilliannau
1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn	1.1 Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo dewis a rheolaeth plentyn dros gynllunio gwirioneddol. 1.2 Adolygu dulliau o gyflawni deilliannau cadarnhaol i blant. 1.3 Cyfrannu at waith rhanddeiliaid a'u cefnogi i weithredu ac adolygu deilliannau llesiant personol.
2. Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol	2.1 Recriwtio a dethol. 2.2 Sefydlu, dysgu a datblygu. 2.3 Goruchwylio'n effeithiol. 2.4 Arwain newid ac arloesi.
3. Arwain a rheoli darpariaeth o ansawdd	3.1 Deall sut i fesur ansawdd a bodloni gofynion.
4. Arwain a rheoli ymarfer proffesiynol	4.1 Gwybod sut i reoli eich hun, ymddygiadau, gwerthoedd ac agweddau. 4.2 Cydweithio. 4.3 Defnyddio dulliau cyfathrebu effeithiol. 4.4 Arwain ymarfer wrth adrodd a chofnodi. 4.5 Hyrwyddo'r defnydd o ymarfer myfyriol.
5. Arwain a rheoli'r gwaith o ddiogelu plant	5.1 Gweithredu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer diogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. 5.2 Cefnogi hawliau a dewisiadau ym maes diogelu. 5.3 Cefnogi'r rheini sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.
6. Arwain a rheoli iechyd a diogelwch	6.1 Gweithredu arferion iechyd a diogelwch sefydliadol.

	6.2 Deall pwysigrwydd cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer plant. 6.3 Deall sut i gydymffurfio ag iechyd a diogelwch, ei fonitro a'i wella.

Grŵp B: Cynnwys dewisol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer dewisol o fewn cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Unedau	**Deilliannau**
7. Arwain a rheoli gwasanaethau i blant aganghenion ychwanegol	7.1 Cynnwys gofynion deddfwriaeth a pholisi mewn gwaith gyda phlant ag anghenion ychwanegol. 7.2 Cefnogi eraill i fyfyrio ar eu hymarfer wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol. 7.3 Cefnogi eraill i ddeall anghenion ychwanegol 7.4 Hyrwyddo hawliau, dewisiadau, lles a chyfranogiad gweithredol. 7.5 Hyrwyddo'r gwaith o adnabod plant ag anghenion ychwanegol yn gynnar a'u cefnogi. 7.6 Arwain gwaith sy'n cefnogi unigolion mwy abl a thalentog. 7.7 Hyrwyddo ymarfer cynhwysol. 7.8 Cefnogi rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY) a dadansoddi eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun. 7.9 Arwain, rheoli a hyrwyddo anghenion gofal personol plant o fewn eich lleoliad. 7.10 Arwain a rheoli'r gwaith o roi meddyginiaeth.
8. Arwain a rheoli gwaith cynllunio a phrosesau busnes	8.1 Deall egwyddorion rheoli busnes. 8.2 Deall sut y caiff dadansoddiad o'r farchnad ei ddefnyddio wrth weithredu datblygiadau busnes newydd. 8.3 Deall rôl cynllunio. 8.4 Datblygu cynlluniau i gefnogi datblygiadau busnes newydd/newid busnes.

	8.5	Rheoli gweithgarwch ariannol sy'n ymwneud â chynlluniau busnes newydd.
	8.6	Deall rôl newid a rheoli risg wrth ddatblygu cynlluniau busnes newydd.
9. Arwain gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal	9.1	Gweithio mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer.
	9.2	Dangos dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar hawliau.
	9.3	Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
	9.4	Cymryd risgiau cadarnhaol.
	9.5	Cydberthnasau cadarnhaol a ffiniau proffesiynol.
	9.6	Cyfathrebu.
	9.7	Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg.
	9.8	Dulliau gweithredu cadarnhaol i leihau arferion cyfyngol.
	9.9	Myfyrio.
	9.10	Agweddau ar lesiant.
	9.11	Asesu, cynllunio gofal a chymorth ac adolygu.
	9.12	Hyrwyddo datblygiad, iechyd a llesiant.
	9.13	Deall a chefnogi newid a chyfnodau pontio.
	9.14	Darparu diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
	9.15	Cynnal datblygiad cydberthnasau teuluol a chydberthnasau eraill.
	9.16	Hyrwyddo addysg, hyfforddiant, chwarae a gweithgareddau hamdden.
	9.17	Datblygu a chynnal cydberthnasau cymdeithasol a chyfranogiad y gymuned.
	9.18	Cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd
	9.19	Llety ac amgylchedd.
10. Arwain a rheoli dulliau gweithredu cadarnhaol o gefnogi ymddygiad	10.1	Hyrwyddo deddfwriaeth, polisi, codau ymarfer a chanllawiau sy'n ategu dulliau gweithredu cadarnhaol, er mwyn lleihau arferion cyfyngol a chefnogi ymddygiad cadarnhaol.
	10.2	Defnyddio deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, codau ymddygiad ac ymarfer er mwyn hyrwyddo

		dulliau gweithredu cymorth ymddygiadol cadarnhaol er mwyn lleihau arferion cyfyngol.
	10.3	Deall y strategaethau sefydliadol allweddol ar gyfer dulliau gweithredu cymorth ymddygiadol cadarnhaol er mwyn lleihau arferion cyfyngol.
	10.4	Cynnal dadansoddiad gweithredol o blant y mae angen cymorth ymddygiadol cadarnhaol arnynt.
	10.5	Deall strategaethau atal ac ymyrryd sy'n canolbwyntio ar unigolion.
	10.6	Arwain a hyrwyddo strategaethau atal ac ymyrryd sy'n canolbwyntio ar unigolion.
	10.7	Rheoli'r gwaith o roi cynlluniau cymorth ymddygiadol ar waith.
	10.8	Hyrwyddo strategaethau adweithiol a moesegol i reoli digwyddiadau ymddygiadol a chefnogi unigolion ac eraill yn dilyn achos o ymddygiad heriol.
	10.9	Adolygu dulliau gweithredu cadarnhaol a'r defnydd o arferion ac ymyriadau cyfyngol.
11. Arwain gwaith gyda theuluoedd a gofalwyr	11.1	Rhianta.
	11.2	Gweithio mewn partneriaeth.
	11.3	Defnyddio eiriolaeth.
	11.4	Defnyddio ymchwil.
12. Arwain a rheoli cydberthnasau rhyngbroffesiynol	12.1	Deall egwyddorion gweithio rhyngbroffesiynol
	12.2	Rheoli amcanion gwasanaeth drwy ddefnyddio tîm rhyngbroffesiynol.
	12.3	Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaeth effeithiol drwy dimau rhyngbroffesiynol.
	12.4	Rheoli prosesau ar gyfer gwaith rhyngbroffesiynol gydag unigolion.
	12.5	Gwerthuso effeithiolrwydd gwaith tîm rhyngbroffesiynol mewn lleoliadau gofal plant yn feirniadol.
13. Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr	12.6	Deall rôl gwirfoddoli mewn sefydliadau/lleoliadau iechyd a gofal.
	12.7	Deall y prosesau a ddefnyddir i recriwtio gwirfoddolwyr.

	12.8 Gallu cynnal y gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr. 12.9 Gallu cefnogi'r gwaith o sefydlu gwirfoddolwyr o fewn lleoliad iechyd neu ofal. 12.10 Deall y cymorth sydd ei angen ar wirfoddolwyr o fewn eich sefydliad/lleoliad eich hun. 12.11 Datblygu prosesau i gefnogi gwirfoddolwyr o fewn eich sefydliad/lleoliad eich hun. 12.12 Rheoli gwaith gwirfoddolwyr o fewn eich sefydliad/lleoliad eich hun. 12.13 Myfyrio ar y rôl a'r prosesau ar gyfer gwirfoddolwyr, eu gwerthuso a'u hadolygu.